

Mae UCU, Undeb Addysg Uwch mwyaf y DU, wedi galw 18i diwrnod o streicio. Mae'r dyddiau penodol wedi eu rhestru isod;

Dydd Mercher 1 Chwefror, Dydd Iau 9 Chwefror, Dydd Gwener 10 Chwefror, Dydd Mawrth 14 Chwefror, Dydd Mercher 15 Chwefror, Dydd Iau 16 Chwefror, Dydd Mawrth 21 Chwefror, Dydd Mercher 22 Chwefror, Dydd Iau 23 Chwefror, Dydd Llun 27 Chwefror, Dydd Mawrth 28 Chwefror, Dydd Mercher 1 Mawrth, Dydd Iau 2 Mawrth, Dydd Iau 16 Mawrth, Dydd Gwener 17 Mawrth, Dydd Llun 20 Mawrth, Dydd Mawrth 21 Mawrth, Dydd Mercher 22 Mawrth 2023.

Mae hyn yn ymwneud â chynllun Pensiwn USS ac amodau tâl a gwaith.

Bydd y Brifysgol yn parhau i wneud popeth posibl i sicrhau bod unrhyw effaith bosibl ar eich astudiaethau yn cael ei lleihau, a bod eich canlyniadau dysgu yn cael eu cyflawni. Byddwch hefyd yn gallu parhau i gael mynediad at wasanaethau allweddol, megis y Llyfrgell a Gwasanaethau Myfyrwyr yn ystod y dyddiau hyn.

Nid yw pob aelod o staff yn streicio, ac mae'r effaith yn amrywio ar draws y Brifysgol. Yn ogystal, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar aelodau UCU sy'n mynd ar streic i hysbysu'r Brifysgol eu bod yn gwneud hynny. Mae nifer o gamau wedi cael eu cymryd i liniaru effaith y gweithredu diwydiannol, ac i sicrhau bod modd cyflawni deilliannau dysgu. Oherwydd hyn mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd yn gallu sicrhau y bydd y deunyddiau angenrheidiol yn gallu cael eu cyflwyno ar draws ei rhaglenni academiaidd. Am y rheswm hwn, ac er ei bod yn anffodus efallai bydd myfyrwyr yn profi ychydig o anghyfleuster, nid yw'r brifysgol yn rhagweld y bydd angen rhoi ad-daliad i fyfyrwyr.

Dylai myfyrwyr gyflwyno unrhyw asesiadau a sefyll unrhyw arholiadau yn ôl y cyfarwyddiadau. Os dylai'r gweithredu diwydiannol effeithio ar barodrwydd unrhyw fyfyrwyr ar gyfer asesiad (e.e. gwaith cwrs a/neu arholiadau), bydd y Brifysgol yn ystyried hyn wrth ystyried estyniadau neu amgylchiadau arbennig a gyflwynir yn ymwneud â'r streic. Fodd bynnag, dim ond os nad yw myfyrwyr wedi cael amser ychwanegol i gwblhau asesiadau o ganlyniad i streic y bydd amgylchiadau arbennig yn berthnasol ar lefel unigol, os nad yw papurau arholiad wedi'u haddasu o ganlyniad i streic, neu os nad yw mesurau byd-eang eraill wedi'u haddasu. yn ôl disgresiwn Senedd y Brifysgol, heb eu cymhwyso i liniaru ar gyfer streic. Senedd y Prifysgol yw awdurdod academiaidd y Brifysgol, ac sydd efo'r pŵer i roi rheoliadau arbennig ar waith mewn perthynas ag asesiadau, i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr dan anfantais mewn amgylchiadau fel y rhain.

Ni fydd y Brifysgol yn elwa'n ariannol oherwydd yr anghydfod hwn, a chaiff unrhyw arbedion cyflog eu neilltuo er budd myfyrwyr.

Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu'r sefyllfa, a byddwn yn rhoi gwybod i fyfyrwyr a staff os yw'r sefyllfa'n newid. Darperir diweddariadau trwy e-bost a bydd Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr Bangor yn cael eu diweddaru'n rheolaidd trwy gydol y cyfnod gweithredu diwydiannol.

Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar gael yn yr adran Cwestiynau ac Atebion sydd yn dilyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, siaradwch â'ch Tiwtor Personol neu Bennaeth eich Ysgol, ac mae Undeb y Myfyrwyr hefyd ar gael wrth gwrs i roi cefnogaeth bellach, ac efallai yr hoffech gysylltu â'ch swyddog sabothol os oes angen cyngor neu eglurhad pellach arnoch. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr a byddwn yn ychwanegu at y cwestiynau a ofynnir yn aml pan ddaw rhagor o wybodaeth i law.

Cwestiynau ac Atebion

Bydd y Brifysgol yn parhau i wneud popeth posibl i sicrhau bod unrhyw effaith bosibl ar eich astudiaethau yn cael ei lleihau, a bod eich canlyniadau dysgu yn cael eu cyflawni. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i fonitro datblygiadau a byddwn yn ychwanegu at y dudalen Cwestiynau ac Atebion wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Yn y cyfamser, oni bai y cewch wybodaeth i'r gwrthwyneb, dylech barhau i fynychu'ch sesiynau addysgu a chyflwyno'r holl waith cwrs fel arfer.

Pwy sy'n rhan o'r anghydfod?

Mae'r anghydfod hwn yn anghydfod cenedlaethol, rhwng y cyrff cenedlaethol sy'n cynrychioli Cyflogwyr Addysg Uwch (UCEA ac UUK) ac UCU (University and College Unions), sef yr undeb llafur sy'n cynrychioli llawer o staff sy'n gweithio mewn Prifysgolion. Dim ond staff sy'n aelodau o UCU sy'n mynd ar streic. Ni fydd pob aelod o staff sy'n aelodau o UCU yn cymryd rhan yn y streic a bydd staff sy'n aelodau o undebau eraill a'r staff hynny nad ydyn nhw'n aelodau o unrhyw undeb yn gweithio fel arfer. Oherwydd, yn ôl y gyfraith, nad oes raid i staff roi rhybudd ymlaen llaw o'u bwriad i fynd ar streic, ni all y brifysgol roi gwybodaeth fanwl am y gweithgareddau y bydd effaith arnynt. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i staff roi gwybod i fyfyrwyr os ydynt yn bwriadu bod ar streic.

Am beth mae'r anghydfod?

Mae'r anghydfod yn ymwneud â dau beth. Mae'n ymwneud â'r USS (Cynllun Blwydd-dâl Prifysgolion), sy'n gweithredu'r cynllun pensiwn i lawer o staff prifysgolion yn y DU, ac am dâl ac amodau gwaith.

A wnaed unrhyw gynnydd tuag at setlo'r anghydfod?

O ran cyflog ac amodau gwaith, mae hyn yn cael ei drafod yn genedlaethol yn flynyddol rhwng y corff sy'n cynrychioli Prifysgolion (UCEA) ac Undebau Llafur cydnabyddedig. Mae codiadau cyflog wedi'u gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyfredol hon (yn weithredol ym mis Awst 2022), yn amrywio o gynnydd o 3% i 9%. Gwrthodwyd y cynnig cyflog gan UCU, ac felly ni ddaethpwyd i gytundeb ar lefel genedlaethol, er bod y codiad cyflog wedi'i weithredu gan Brifysgolion, ac felly wedi'i dalu i aelodau staff.

Mae'r cyrff sy'n cynrychioli Prifysgolion wedi parhau i gyfarfod ag UCU, yn fwyaf diweddar ar 25 Ionawr, ac mae'r trafodaethau hyn wedi ymestyn i gynnig cyflog 2023-24, a fyddai'n dod i rym ym mis Awst 2023. Mae UCEA wedi ysgrifennu at yr undebau llafur i gadarnhau y cynnig terfynol ar gyflog ar gyfer 2023-24 sy'n darparu ar gyfer codiad o hyd at 8% i staff ar y pwyntiau cyflog cenedlaethol isaf, a chodiad o 5% ar gyfer staff ar y pwyntiau cyflog uwch. Mae hyn hefyd yn cynnwys codiad cyflog interim o 1 Chwefror 2023 gyda'r gyfran sy'n weddill o'r codiad cyffredinol yn cael ei rhoi ar waith o fis Awst 2023.

Beth yw'r USS?

Cynllun pensiwn cenedlaethol yw'r USS, sy'n cael ei reoli gan ei ymddiriedolwyr ei hun ac yn cael ei oruchwylio gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae'r rheswm dros yr anghydfod yn ymwneud â newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r ffordd y bydd y cynllun pensiwn yn gweithredu yn y dyfodol. Gan fod yr USS yn gynllun pensiwn cenedlaethol annibynnol gyda tua 350 o wahanol gyflogwyr, nid oes gan brifysgolion unigol reolaeth dros sut mae'r cynllun yn cael ei redeg.

Pam fod rhai aelodau o staff yn mynd ar streic?

Bwriedir gwneud newidiadau i'r cynllun pensiwn ac mae hynny'n effeithio ar nifer o staff Prifysgol ledled y DU. Cynllun pensiwn cenedlaethol annibynnol yw'r USS.

O ran cyflog ac amodau gwaith, mae hyn yn cael ei drafod yn genedlaethol bob blwyddyn rhwng y corff sy'n cynrychioli Prifysgolion ac Undebau Llafur cydnabyddedig. Mae gan staff sy'n aelodau o

UCU hawl gyfreithiol i weithredu'n ddiwydiannol, ac mae hyn yn digwydd mewn Sefydliadau Addysg Uwch ledled y DU.

Beth yw dyddiadau'r streic?

Bydd 18 diwrnodi o streicio, fel y rhestrir isod.

Dydd Mercher 1 Chwefror, Dydd Iau 9 Chwefror, Dydd Gwener 10 Chwefror, Dydd Mawrth 14 Chwefror, Dydd Mercher 15 Chwefror, Dydd Iau 16 Chwefror, Dydd Mawrth 21 Chwefror, Dydd Mercher 22 Chwefror, Dydd Iau 23 Chwefror, Dydd Llun 27 Chwefror, Dydd Mawrth 28 Chwefror, Dydd Mercher 1 Mawrth, Dydd Iau 2 Mawrth, Dydd Iau 16 Mawrth, Dydd Gwener 17 Mawrth, Dydd Llun 20 Mawrth, Dydd Mawrth 21 Mawrth, Dydd Mercher 22 Mawrth 2023.

Ar y dyddiau hyn, efallai y bydd rhai aelodau o staff yn cymryd rhan yn y streic, ac efallai y bydd hyn yn amharu rhywfaint ar rai gweithgareddau addysgu. Fodd bynnag, gan nad yw holl staff y Brifysgol yn aelodau o UCU, bydd effaith y streic yn amrywio o un rhan o'r Brifysgol i'r llall.

Beth mae'r Brifysgol yn ei wneud i sicrhau nad yw myfyrwyr ym Mangor dan anfantais?

Nid yw ein holl staff yma yn aelodau o UCU, felly gall effaith unrhyw weithredu amrywio ar draws y brifysgol. Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, cymerodd llai nag 20% o aelodau staff Academaidd Bangor ran yn y streicio, ac o'r rhai a wnaeth, ni ddaru y mwyafrif streicio am y diwrnodiau i gyd.

Bydd y brifysgol felly yn aros yn agored ar y dyddiadau a ddewiswyd gan UCU ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau allweddol fel y Llyfrgell a Gwasanaethau Myfyrwyr. Cyn gynted ag y bydd eich Ysgol yn gwybod i ba raddau yr effeithir ar ddsbarthiadau, fe gewch wybod am unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud. Yn ôl y gyfraith, nid oes raid i staff roi rhybudd ymlaen llaw o'u bwriad i weithredu'n ddiwydiannol, ond ein profiad ni ym Mhrifysgol Bangor yw y bydd staff yn aml yn hysbysu myfyrwyr o'u bwriadau.

Mae nifer o gamau wedi cael eu cymryd hefyd i liniaru effaith y gweithredu diwydiannol ac i sicrhau bod modd cyflawni deilliannau dysgu. Oherwydd hyn mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd yn gallu sicrhau y bydd y deunyddiau angenrheidiol yn gallu cael eu cyflwyno ar draws ei rhaglenni academaidd.

A fydd y gweithredu yn cael effaith ar unrhyw waith y mae myfyrwyr yn ei gyflwyno i'w asesu?

Dylai myfyrwyr gyflwyno asesiadau ac eistedd arholiadau yn unol â chyfarwyddyd. Pe bai'r gweithredu diwydiannol yn effeithio ar unrhyw asesiadau (e.e gwaith cwrs ac / neu arholiad), bydd y Brifysgol yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth ystyried estyniadau neu amgylchiadau arbennig sydd yn cael eu cyflwyno ac yn ymwneud a'r gweithredu. Fodd bynnag, dim ond os nad yw myfyrwyr wedi cael amser ychwanegol i gwblhau asesiadau o ganlyniad i streic y bydd amgylchiadau arbennig yn berthnasol ar lefel unigol, os nad yw papurau arholiad wedi'u haddasu o ganlyniad i streic, neu os nad yw mesurau byd-eang eraill wedi'u haddasu. yn ôl disgrisiwn Senedd y Brifysgol, heb eu cymhwyso i liniaru ar gyfer y streic. Mae gan Senedd y Brifysgol rym i weithredu rheoliadau arbennig yn ymwneud ag asesiadau er mwyn sicrhau na roddir unrhyw fyfyrwyr dan anfantais mewn amgylchiadau fel y rhain.

Ymhle gaf i ragor o wybodaeth am fy amgylchiadau personol i?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, siaradwch â'ch Tiwtor Personol neu Bennaeth eich Ysgol, ac mae Undeb y Myfyrwyr hefyd ar gael wrth gwrs i roi cefnogaeth bellach. Dylid cyfeirio ceisiadau am hawliadau amgylchiadau arbennig i'r Ganolfan Gais trwy myBangor, lle ymddrinnir â'r cais yn unol â hynny.

Fydd y brifysgol ar agor ar ddiwrnodau'r streic?

Bydd y Brifysgol yn aros ar agor yn ystod y streic a bydd staff nad ydynt yn aelodau o UCU yn parhau i weithio fel arfer. O ganlyniad, bach iawn fydd yr effaith mewn rhai meysydd, tra gallai hyn effeithio ar weithgareddau addysgu mewn meysydd eraill. Bydd manau fel y llyfrgell, y manau dysgu, labordai cyfrifiadurol, a chyfleusterau chwaraeon ar gael fel arfer. Os ydych chi'n gwneud gwaith project mewn labordy, mae'n debygol y bydd hyn dal yn bosibl, ond dylech sicrhau eich bod yn gofyn am gyngor yn lleol i sicrhau bod lefel briodol o gymorth ar gael o safbwynt iechyd a diogelwch.

Sut fyddaf i'n gwybod os yw fy narlith, seminar, labordy neu sesiwn addysgu arall wedi ei chanslo?

Rydym yn disgwyl y bydd llawer o sesiynau addysgu yn cael eu cynnal yn ôl yr arfer. Ond mae'n bosibl y bydd rhai o'ch sesiynau yn cael eu canslo. Er nad oes rhaid i staff roi rhybudd ymlaen llaw o'u bwriad i weithredu'n ddiwydiannol, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i wneud hyn, mae posibilrwydd y gallwch ddod i sesiwn sy'n cael ei chanslo. Fodd bynnag, ein profiad ym Mhrifysgol Bangor yw y bydd staff yn aml yn rhoi gwybod i fyfyrwyr o'u bwriad fel cwртеisi i'w myfyrwyr. Efallai bydd aelodau staff yn eich hysbysu naill ai'n uniongyrchol trwy e-bost neu trwy Blackboard felly cofiwch gadw golwg am y wybodaeth ddiweddaraf. Dylech fynychu dosbarthiadau fel arfer oni bai eich bod wedi cael gwybod fel arall.

A fydd sesiynau addysgu'n cael eu hail-drefnu os cânt eu canslo?

Nid ydym yn gallu ateb y cwestiwn hwn ar hyn o bryd oherwydd nid ydym yn gwybod faint o staff fydd yn streicio. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio sicrhau na fydd unrhyw fyfyrwr dan anfantais oherwydd y gweithredu a byddwn yn ceisio ail-drefnu cynifer â phosibl o ddigwyddiadau sy'n cael eu canslo er mwyn lleihau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, effaith y streic ar eich astudiaethau, fodd bynnag, nid oes raid i staff sy'n mynd ar streic ail-drefnu dosbarthiadau sy'n cael eu canslo oherwydd y streic.

A fyddaf yn cael fy asesu ar bynciau sydd heb gael sylw oherwydd y streic?

Pe bai'r gweithredu diwydiannol yn effeithio ar barodrwydd unrhyw fyfyrwr ar gyfer asesu, bydd y Brifysgol yn ystyried hyn wrth ystyried estyniadau neu amgylchiadau arbennig i sicrhau nad oes unrhyw un dan anfantais. Bydd y Brifysgol yn gofyn i asesiadau gael eu hadolygu yng ngoleuni unrhyw gynnwys a fethwyd oherwydd y streic. Mae gan Senedd y Brifysgol y pŵer i roi rheoliadau arbennig ar waith mewn perthynas ag asesiadau, i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr dan anfantais mewn amgylchiadau fel y rhain.

A fyddaf yn cael iawndal?

Mae'r brifysgol yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i leihau unrhyw effaith ar eich astudiaethau, ac felly nid ydym yn disgwyl y bydd angen rhoi ad-daliad na thalu iawndal i fyfyrwyr. Mae nifer o gamau wedi cael eu cymryd i liniaru effaith y gweithredu diwydiannol, ac i sicrhau bod modd cyflawni deilliannau dysgu. Oherwydd hyn mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd yn gallu sicrhau y bydd y deunyddiau angenrheidiol yn gallu cael eu cyflwyno ar draws ei rhaglenni academaidd. Am y rheswm hwn, nid yw'r brifysgol yn rhagweld y bydd angen talu iawndal na rhoi ad-daliad. Unwaith y bydd y gweithredu diwydiannol wedi dod i ben ac unwaith y bydd yn fwy eglur sut mae'r gweithredu wedi tarfu ar fyfyrwyr, byddwn yn ystyried sut i ymateb i unrhyw geisiadau am iawndal.

A fydd dyddiadau cyflwyno fy ngwaith cwrs yn cael eu newid?

Dylech gymryd yn ganiataol bod unrhyw ddyddiadau cyflwyno a bennwyd yn aros fel y maent a dylech gyflwyno eich gwaith yn unol â'r dyddiadau hynny. Os oes dyddiad cau ar ddiwrnod streic, dylech gyflwyno'ch gwaith yn y ffordd arferol.

Beth all y Brifysgol ei wneud i ddatrys hyn?

Mae datrys yr anghydfod hwn yn gofyn am gytundeb ar lefel genedlaethol, sy'n golygu nad yw Prifysgol Bangor mewn sefyllfa i ddod i benderfyniad lleol. Fodd bynnag, rydym yn obeithiol o gael datrysiad i'r anghydfod hwn, ac yn y cyfamser byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau unrhyw effaith bosibl y gallai'r streic ei chael arnoch chi fel myfyrwyr, a bydd y Brifysgol yn aros ar agor yn ystod cyfnod y streic.